

This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository:<https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/87263/>

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Gramich, Katie Yvonne 2016. Llwyfen Grin. Taliesin - Yr Academi Gymreig.

Publishers page:

Please note:

Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies. See <http://orca.cf.ac.uk/policies.html> for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.



LLWYFEN GRIN

KATIE GRAMICH

Daeth y stori hon yn agos at y brig yng Nghystadlneuath Stori Fer Taliesin a BBC Radio Cymru yn gynharach eleni. Pleser yw cael ei chyhoeddi yma.

Mae'r haul yn tywallt golau dros rosod pinc goruwchnaturiol rhif 25 ac yn tasgu oddi ar fonet Rover aur caboledig rhif 21. Ar y wal isel gyferbyn, o flaen rhif 23, gwelir mÿg anghofiedig, wedi ei osod ar bwys bwndel o chwyn sy'n troi'n grimp yn y gwres. O'r tu ôl i'r llenni lês mae'n bosib darllen y logo ar y mÿg: 'World's Best Dad', mewn llythrennau coch llachar. O dan y goeden lafant yn rhif 27 mae sgrech y coed yn hwoffian, wedi crwydro i ffordd bengaead y Gelli o fynwent Cathays. Ar wahân i siffrwd yr aderyn, mae tawelwch yn gorwedd dros y stryd, fel croen ar gwstad.

Ond mae rhywbeth o'i le. Saif drws ffrynt rhif 27 yn gilagored a does neb o gwmpas. Nid oes modd dirnad beth sydd tu ôl i'r gofod du. Mae'r Gelli'n disgwyl. Mae'r aer yn awr fel croen drwm o dynn. Dal ei hanadl mae'r Gelli.

A dyma nhw: dyn, menyw, a'u daeargi Sir Gaerefrog pitw yn cael ei arwain yn hamddenol ar hyd y stryd sy'n torheulo yn y gwres. Maen nhw'n oedrannus, fel dyn rhif 27, sydd bellach yn byw ar ei ben ei hun gyda'i darwgi du a gwyn. Wrth i'r cerddwyr fynd heibio, daw'r tarwgi i'r golwg yng ngofod y drws cilagored. Saif yn stond ar y rhiniog, golwg ddryslud ar ei wyneb. Ond wedyn gwêl y daeargi ac mae'n gwybod beth sy'n rhaid iddo wneud. Mae pob cyhyryn yn ei gorff cadarn yn tynhau ac yn sydyn, mae'n gwibio allan. Cyn i'r Gelli gymryd ei hanadl, mae'r daeargi yn safnau'r tarwgi, ac yn cael ei ysgwyd yn ffyrnig o'r naill ochr i'r llall, fel llygoden fawr.

Mae sgrechiadau'r fenyw yn rhwygo croen tynn tawelwch y Gelli. Daw gweiddi gwyllt y dyn fel tyrfedd annisgwyl. Nid yw'r ddau gi yn gwneud sŵn o gwbl. Wedi eu cloi ynghlwm yn ei gilydd, un yn cael ei ysgwyd ac yn tasgu gwaed a'r llall yn ymsythu fel paffiwr ar lwyfan, yn anataladwy yn ei berfformiad.

Un ar ôl y llall, mae trigolion y Gelli i'w gweld ar eu rhiniogau, wedi drysu'n lân. Beth yn y byd sy'n digwydd ar y Sul fel hyn? Yna, mae cwlwm o ddynion

yn nesáu at y cŵn, yn chwifio ffyn ac ymbarél atynt. Ceisia'r tri berswadio'r tarwgi i ollwng y llall yn rhydd. Maent yn ei ffustio ar ei gefn gyda'u harfau ond yn ofer. Ysgwyda'r ci ei ben o'r naill ochr i'r llall, o'r naill i'r llall, fel peiriant nad oes modd ei ddiffodd. Mae'r ci bach yn awr yn hollol lipa yn ei safnau. Yna, mae dyn ifanc yn dynesu atynt, yn dal gordd chwarae *croquet* yn ei law. Mae sgrechiadau'r wraig a gweiddi ei gŵr wedi peidio erbyn hyn; maent yn llefain yn dawel, wedi ymollwng i eistedd ar y wal. Clywir yr ergyd ar benglog y tarwgi yn diasbedain o un pen y stryd i'r llall, fel cloch eglwys hirbell o dan ddŵr. Gollynga'r tarwgi ei brae i ddisgyn ar y pafin ac yna mae'r dyn â'r ordd yn ei lusgo at ddrws ffrynt rhif 27, yn ei daflu i'r tywyllwch a chau'r drws yn glep.

Mae'r tawelwch yn sleifio nôl. Yr unig sŵn yn awr yw griddfan y wraig sy'n magu'r daeargi llipa yn ei breichiau fel baban, wrth i'w gŵr ei chofleidio gan grïo ar ei gwddf. Yna mae'r ddau yn troi yn ôl am eu cartref ym mhen caeedig y stryd, yn cerdded yn araf megis mewn gorymdaith angladdol. Mae rhif 21, 23 a 25 yn cael eu lapio yn eu tawelwch blaenorol. Sleifia cath ddu gyda golwg gyfrwys arni ar draws clôs gwag rhif 27.



Na, doedd dim arlliw o wyrdd ar foncyff yr hen goeden. Prociodd ymysg y borfa o gwmpas ei throed gyda'i ffon gerdded ond doedd dim sôn am unrhyw gangen fach newydd yn dod i'r golwg. Roedd y llwyfen wedi ei difetha gan yr hen glefyd 'na o'r Iseldiroedd. Yn sydyn, teimlodd yn wan ac roedd yn rhaid iddo gerdded yn simsan tuag at y fainc bren gyfagos rhag ofn iddo gwympto eto. Eisteddodd a chau ei lygaid. Gallai weld y goeden fawreddog yn ei gogoniant yn y tywyllwch, a Maria ac yntau yn sefyll o'i blaen yn ei hedmygu. Agorodd ei lygaid. Roedd y goeden wedi crymanu a marw. Erbyn hyn roedd bois y cyngor wedi bod heibio ac wedi torri'r canghennau anferthol i ffwrdd gan adael y boncyff moel. Beth oedd e wedi'i ddisgwyl? Gwyrrth y gwanwyn? Ond roedd hi lawer yn rhy hwyr – roedd yn ddiwedded haf, a'r gwres yn llethol. Ac eto roedd rhyw awydd dieithr wedi dod drosto'r bore Sul hwn i fynd lawr at fynwent Cathays i weld yr hen lwyfen.

Pa ddwlu oedd hyn? Ers colli Maria roedd e wedi cadw at y tŷ a'r ardd, mwy neu lai. Beth oedd y pwynt mynd i straffaglu allan ar ei faglau i weld bywydau pobol eraill yn mynd ymlaen yr un fath ag erioed – a hithau wedi

diflannu? Ond y bore 'ma, roedd e wedi sacco ei drwyn drwy ddrws y bac ac wedi arogl nawys y gaeaf am y tro cyntaf eleni. Serch hynny, roedd yr ardd yn wyrdd reit a'r afalau yn aeddfedu'n goch llachar. Roedd Perrito yn crafu'r drws yn wyllt ac fe wibiodd allan i'r ardd pan agorodd y drws iddo. Dilynodd y ci yn ara' deg – bob bore nawr roedd yn rhaid casglu'r glaw o afalau oedd wedi cwmpo ar y borfa. I ba bwrpas? Roedd y boc cardfwrdd ger y drws yn orlawn o ffrwythau eisoes. Neb yma i wneud tarten na jam na tsytini mwyach. Ond roedd e'n dal i'w casglu, rhai ohonynt yn llawn tyllau o bigau main y piody. Unwaith, gwelodd neidr gantroed yn cerdded o dwll mewn boch afal a theimlodd y cyfog yn codi yn ei gylla.



Rhaid cwato, nawr. Rhywbeth wedi mynd o'i le. Sôn main yn atseinio yn fy mhen. Arogl gwaed o hyd. O leia' roedd y llygoden fawr wedi trigo. Hynny'n sicr. Ond ble roedd E? Roedd Hi wedi mynd a nawr mae'n bosib ei fod E wedi ei dilyn. Ffael meddwl yn iawn, ffael cerdded yn syth. Tŵriaf yma o dan y staer. Arogl ei welingtons Hi yma o hyd. Drawdod melys ei sanau Ef. Gorwedd ar yr hen goban ar y llawr. Cysgu.



Edrychodd o'i amgylch. Roedd y fynwent yn wag. Neb yn cymhennu beddau nac yn gosod blodau yn y gwres anarferol yma. Meddyliodd am y ffordd adre – dim ond tua hanner milltir i ffwrdd oedd y tŷ ond roedd hynny'n teimlo fel ugain milltir iddo nawr. Ble yn y byd oedd y blynyddoedd wedi mynd? Roedd hi fel ddoe pan roedd e a Maria yn cwrso'i gilydd i fyny'r heol a'r ddau ohonynt, newydd briodi, yn cyrraedd adre mewn dim o dro, eu gwynt yn eu dyrnau ond yn llawn egni a hwyl. Cofiodd ei chusanu yma, o dan gysgod y goeden a oedd fel ffynnon o wyrddni. Daeth geiriau'r salm yn ôl iddo'n sydyn: 'Y mae afon, a'i ffrydiau a lawenhânt...'

Sut roedd ei fyd wedi crebachu cymaint? Unwaith, fe grwydrodd y byd gyda'i sach gefn a'i babell. Trenau, awyrennau, bysus, ar gefn beic, ar geffyl – ar gefn camel unwaith hyd yn oed! Ond yn fwy na dim, ar ei draed ei hun. Cerdded llwybrau gwyrdd y byd, agor ei lygaid, ei geg, blasu sawr rhyfedd ieithoedd gwahanol. Dyna oedd wedi ei sbarduno'n fwy na dim – clywed y lleisiau gwahanol, clec a rhythm tafodau dieithr. Cofiodd glywed llais Maria

am y tro cyntaf. Dyna lais! Teimlodd rith y wefr gyntaf ar hyd ei gyhyrau gwan. Maria yn canu wrth olchi'r dillad mewn twba yn y *plaza* bychan y tu ôl i'r gwesty yn Salamanca. Roedd ganddi gannoedd o ganeuon ar ei chof, caneuon sipsi, caneuon gwerin Castilla a Leon, caneuon o America Ladin. Unwaith, pan oedd e'n eistedd ar y fainc yn y *plaza* yn astudio'i lyfr, fe edrychodd hi dros ei hysgwydd a dechrau canu'r gerdd roedd e'n ei darllen. Dyna sut un oedd hi. Roedd hi'n dod â phawb a phopeth yn fyw. Roedd y geiriau ar y papur yn dawnsio yn ei llais ac yn diasbedain o furiau aur yr hen dŷ. Roedd geiriau cerddi Machado a Lorca wedi eu plethu gyda'u cariad nhw. Doedd e methu darllen y cyfrolau hynny mwyach – roedd cyffwrdd ynddynt, hyd yn oed, yn dod â'r dagrau i'w lygaid. Ond roedd y geiriau'n dal yn y cof. Llais arall yn canu – *La Niña de los Peines* – un o gantoresau fflamenco gorau'r ganrif; plygu dros yr hen record finyl gyda Maria a chlywed y cryndod gwefreiddiol yn ei llais, yr oslef estron, Affricanaidd, yn ymlusgo o dan yr alaw. Roedd ei benglog yn llawn lleisiau, ond distawrwydd oedd o'i gwmpas ym mhob man erbyn hyn.

Cododd ar ei draed yn araf deg a dechrau ymlwybro'i ffordd yn ôl. Doedd e ddim yn teimlo'n euog am ddenu Maria yma o'i mamwlad. Mewn ffordd, roedd Maria'n cario Sbaen o gwmpas gyda hi i bobman, fel y caneuon yn ei chof. Ac roedden nhw wedi setlo yn y Gelli a disgwyl am y plant... na ddaethant fyth. Ond roedd y tristwch yna wedi eu gwreiddio nhw'n ddyfnach yn eu byd eu hunain, eu *plaza* bychan yng nghanol heol gaeedig y Gelli. Aeth y blynyddoedd heibio fel dŵr y Tormes yn llyfio o dan bont Rufeinig Salamanca. Dim ond Perrito bach oedd wedi ymwithio ei ffordd i mewn i'w byd nhw. 'Perrito', wir! Ci bach oedd e pan ddaeth i'r tŷ gyntaf, ond roedd e wedi prifio i fod yn darwgi mawr a chadarn. Ac eto, bob tro'n annwyl a chariadus. Roedd yr hen gi wedi gweld eisiau Maria hefyd. Dylai fod wedi dod â'r hen greadur am wâc ar y lein gydag ef heddiw, ond y gwir amdani oedd ei fod e'n rhy wan i reoli'r ci, bellach. Gallai Perrito wibio 'mlaen a gwneud iddo gwmpo a thorri ei glun am yr eildro. Na, roedd e'n teimlo'n euog, ond roedd yn well gadael Perrito yn ddiogel yn yr ardd.

Erbyn iddo gyrraedd y gornel a arweinai at y Gelli, roedd yn cydio ym marrau rhydlyd ffens y fynwent ac yn llusgo ei ffordd ymlaen. Roedd y Gelli'n

hollol dawel, yn annaturiol o dawel. Dynesodd at y tŷ yn boenus o araf. Eisteddodd ar wal isel rhif 23 i gael ei anadl ato. Roedd mŷg 'World's Best Dad' ar y wal wrth ei ochr. Petai rhywun wedi rhoi hwnnw fel anrheg iddo fe, ni fyddai'n ei adael yn esgeulus yn yr awyr agored fel hyn. Gallasai rhyw gath neu gi neidio i fyny a'i falu'n deilchion. Neu blentyn hyd yn oed. Fel arfer roedd rhyw grwt yn sgathru o gwmpas ar ei sgwter, gan dasgu graean i bobman. Cododd ei olygon at y rhes o dai gyferbyn, rhifau 20, 22, 24, 26. Neb. Yn arferol fe fyddai rhyw gymydog neu'i gilydd yn sefyll ar ysgol yn paentio neu'n glanhau neu'n drilio tyllau, yn enwedig ar y Sul fel hyn. Ond na, dyna beth od, heddiw doedd dim byd, dim sŵn.

Cododd yn lletchwith ar ei draed. Dyma ddrws y ffrynt, o'r diwedd. Chwiliodd ym mhocedi ei siaced am yr allwedd. O na, doedd e erioed wedi cloi ei hunan allan, oedd e? Gafaelodd ym mwlyn y drws a'i droi a synnodd i weld y drws yn agor. Yn amlwg roedd e wedi anghofio'i gloi. Iesgob mawr, roedd e'n dechrau drysu. Camodd i mewn i'r fynedfa ac anelu at y gegin i wneud cwpanaid o de.

Ble roedd Perrito, tybed? Fel arfer roedd y ci yn gwneud ffŷs mawr pan ddôi mewn i'r tŷ. Roedd e wedi bod yn fwy cariadus nag erioed ers i Maria fynd, druan. Ciledrychodd o gwmpas drws y gegin i'r fynedfa, ac yna sylwodd ar drywydd o smotiau coch ar y llawr pren. Symudodd stôl fach ac eisteddodd yn ofalus arni er mwyn gweld y smotiau'n eglurach; doedd e ddim yn meiddio mynd ar ei liniau rhag ofn iddo fethu codi ar ei draed wedyn. Gwyrodd i lawr a rhoi ei fys ar smotyn coch; yna, daeth â'i fys yn agos at ei lygaid. Gwaed? Ac yna, o gil ei lygad, cafodd gip ar rywbeth yn symud ymysg y welingtons a'r smonach amrywiol o dan y staer. Daeth trwyn Perrito i'r golwg a gwelodd fod dafnau o waed yn cwmpo o'i ên. Edrychodd ym myw'r ddau lygad brown. 'Dere 'ma, 'ngwas i.' Agorodd ei freichiau a sleifiodd y ci i'w gôl, gan riddfan yn dawel.

Cyn bo hir, canodd cloch drws y ffrynt yn daer. Gallai weld amlinell yr heddw a glas tywyll ei wisg drwy wydr y drws. Tynnodd Perrito yn agosach ato a chau ei lygaid.

DUO IMAGE?